funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Ebrill/Mai 2007

Erbyn hyn, mae prosiect Cymunedau @ Ei Gilydd yn Oldford ar waith! Enw'r prosiect fydd Oldford Arlein. Llongyfarchiadau i Carl Gannon, am ddyfeisio'r enw a'r logo gwych.

Trwy Oldford Arlein, bydd technoleg newydd ar gael i holl aelodau'r gymuned. Mae pum cyfrifiadur pen-bwrdd yn Ystafell Gymunedol Clwyd Alyn ac wyth o liniaduron yn Nhŷ Emerald yn Ysgol Babanod Oldford. Hefyd, bydd dau gamera digidol a chamera fideo ar gael i bobl eu defnyddio. Bydd pawb, boed yn 9 neu'n 99 oed, yn gallu defnyddio'r offer technolegol diweddaraf mewn amgylchfyd cyfeillgar, cefnogol a hwyliog.

Sut bydd yn gweithio?

Byddwch yn gallu defnyddio'r cyfrifiaduron yn ystod sesiynau i'w trefnu. Pwrpas rhai o'r sesiynau hyn fydd rhoi cyfle i chi ddysgu sut i ddefnyddio'r dechnoleg, tra bydd eraill yn rhoi mynediad rhydd i'r cyfrifiaduron ar gyfer eich gwaith chi'ch hunan.

Dyma'r sesiynau fydd yn cael eu cynnal cyn bo hir:

- *Gweithdai Llywio'r Llygoden* – os nad ydych wedi defnyddio cyfrifiadur o'r blaen, neu os ydych yn nerfus am ddefnyddio un, dyma'r sesiynau i chi. Byddwch yn dysgu popeth o gychwyn cyfrifiadur i sut i ddefnyddio'r Rhyngrwyd.
- *Porwyr Brith* – ydych dros 50 oed, a hoffech chi ddysgu sut i bori'r Rhyngrwyd? Yn y sesiynau i Borwyr Brith cewch gyfle i ddysgu sut i ddefnyddio'r Rhyngwyd ac ebost mewn ffordd ddiogel a chyfrinachol.
- *Clwb Gwaith Cartref* – os ydych rhwng 8 ac 18 oed—dyma'ch cyfle! Byddwch yn gallu defnyddio'r cyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd i wneud eich gwaith cartref.
- *Mynediad Agored* – dewch draw i un o'r sesiynau yma i ddefnyddio'r cyfrifiaduron ar gyfer eich gweithgaredd eich hunan. Bydd help a chefnogaeth ar gael trwy'r amser, os oes ei angen.

Bydd amserlenni yn dangos amseroedd y sesiynau hyn yn cael eu rhoi ar yr hysbysfyrddau tu allan i swyddfeydd Clwyd Alyn a Chymunedau'n Gyntaf, ac yn rhifynnau Llais Oldford yn y dyfodol. Os hoffech weld sesiynau eraill yn cael eu trefnu, rhowch wybod inni!

Parhad ar dudalen 5...

Yn y rhifyn hwn:

Oldford Arlein	*1*
Swydd wag	*2*
Diwrnod Hwyl Oldford 2007	*3*
Erthygl ar Ddiogelwch	*4*
Cymunedau'n Gyntaf	*5*
	6

Cymru'n ddi-fwg—gweler tudalen 2

Y diweddaraf ar Gae chwarae Scansis tud 3

Gweler tud 3 am ben-blwyddi!!!

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

Awyr iach gyda Chymru'n troi'n ddi-fwg

Ar ddydd Llun 2ail Ebrill daeth y gwarharddiad i rym i atal ysmygu mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru.

Hoffech chi gael help i roi'r gorau i ysmygu?

Llinell Gymorth Smygwyr Cymru

Llinell Gymorth Smygwyr Cymru (0800 169 0 169)

Llinell gymorth arbennig yw hon yng Nghymru i helpu pobl sydd am roi'r gorau i ysmygu.

Mae'r llinell gyngor rhadffôn yn cynnig:

- Cyngor cyfrinachol unigol gan gynghorwyr hyfforddedig
- Cyngor ar roi'r gorau i ysmygu a chymorth gyda phroblemau cysyll-tiedig
- Taflenni gwybodaeth ar gynllunio a pharatoi i roi'r gorau iddi
- Cyngor ar wasanaethau rhoi'r gorau iddi yn eich ardal leol

Wyddoch chi fod etholiadau'r Cynulliad yn digwydd ar 3 Mai 2007.

Os ydych yn 18 oed neu drosodd, dyma'ch cyfle i bleidleisio…

Gwyliwch allan am y maniffestos

Byddwch yn barod i holi'r ymgeiswyr

Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys y 60 o Aelodau'r Cynulliad (AC) sy'n cael eu hethol gan bobl Cymru. Maent yn cwrdd mewn siambr drafod yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru.

Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o wariant cyhoeddus yng Nghymru, ac mae ganddo'r grym i lunio ystod eang o is-ddeddfwriaeth. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol hawl i godi trethi.

Swyddi gwag...

CYNLLUN CHWARAE'R HAF

THE GET GOING GANG

MAE ANGEN 4 X CYNORTHWY-YDD CHWARAE
(Yn gorfod bod yn 18 oed neu drosodd)

5 diwrnod yr wythnos Llun—Gwener 9.30yb – 3.30yp am 5 wythnos yn ystod gwyliau'r haf o ddydd Llun 23ain Gorff – dydd Gwener 24ain Awst ar raddfa £6.50 yr awr.

I gynorthwyo'r arweinydd chwarae a'r pwyllgor rheoli i gynllunio a pharatoi gweithgareddau'r cynllun chwarae. I weithio fel aelod o dîm, yn ogystal â gosod allan a chlirio'r holl weithgareddau. Byddwch hefyd yn rhan o redeg y cynllun chwarae o ddydd i ddydd.

Cymhwyster Lefel 2 neu'r tebyg mewn gofal plant, gwaith chwarae yn hanfodol. Darperir hyfforddiant sefydlu.

Bydd angen i bob ymgeisydd gael gwiriad CRB. Ceir ffurflen gais trwy gysylltu â Liz Gannon ar 01938555269 neu Jayne Howe ar 07809677658

Dyddiad cau 14eg Ebrill 2007

Cynhelir cyfweliadau: Dydd Sadwrn 21ain Ebrill 2007.

Diwrnod Hwyl Oldford 2007...

Mae'r haf rownd y gornel, ac mae'n amser dechrau meddwl am ein Diwrnod Hwyl. Mae 'na lawer o waith paratoi, nid yn unig o safbwynt cynllunio, ond hefyd wrth ystyried pa ddigwyddiadau i gael ar y diwrnod.

Byddem yn hoffi trefnu diwrnod heb ei ail eleni, ond bydd angen eich cymorth chi. Os oes gennych unrhyw syniadau, neu os hoffech fod yn rhan o drefnu'r diwrnod, rhowch wybod i Sian – 554181 neu Ellen – 07704540983 – neu unrhyw un o'r aelodau Pwyllgor.

Dangoswn i'r Trallwng mai Oldford yw'r lle i fod, a'n bod yn gwybod sut i gael amser da.

Dewch o 'na drigolion Oldford—beth am wneud y diwrnod eleni'r gorau hyd yn hyn yn hanes y dref!!!



Y DIWEDDARAF AR GAE CHWARAE SCANSIS

Fel y gwelwch, mae'r gwaith wedi dechrau ar safle cae chwarae Scansis. Mae'r gwaith paratoi'r tir wedi digwydd, ac maent yn barod i osod y cae. Dyddiad cychwyn y gwaith yma yw dechrau Mai a bydd yn cymryd pythefnos i'w wneud.

Mae CTO yn gobeithio gwneud gwaith tirlunio ar y man chwarae yn y dyfodol agos. Ar ôl paratoi'r tir, bydd y tyweirch yn cael eu gosod. Ni fydd unrhyw un yn cael mynd ar y safle nes bydd y tyweirch wedi setlo, a byddem felly yn gofyn am eich cydweithrediad i sicrhau fod hyn yn digwydd. Gofynnwn i chi a'ch plant gadw draw o'r man chwarae yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y man chwarae yn edrych cymaint yn well, a bydd yn llawer mwy diogel. Felly, helpwch ni i ofalu fod y tyweirch yn setlo ac yna'n tyfu fel y dylent.

PEN-BLWYDD HAPUS!!

Ebrill 11eg

Pen-blwydd hapus Olive!!!

Ebrill 13eg

Pen-blwydd hapus—Dean yn 18!

Pen-blwydd hapus Vinnie!!!

Pen-blwydd hapus Jane—39!!!

Ebrill 24ain

Pen-blwydd hapus Mam/Nain!!

Ebrill 27ain

Pen-blwydd hapus Mam/Kirsty!

Mai 14eg

Pen-blwydd hapus Mam/Ellen!!!

Mai 24ain

Pen-blwydd hapus yn 16 oed Disa!!!

Mai 29ain

Pen-blwydd hapus Shannon!!!



Ar Werth...

Peiriant torri glaswellt

Flymo - hover compact 300

£25.00 , Strimyr £10 neu **£30 am y ddau.** Wedi cael eu cynnal a chadw'n rheolaidd. Ffôn 552960.

Peiriant Llosgi a Chymysgu CD.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch: 555269

Materion ariannol

Gadewch nhw'n llonydd, os 'dach chi'n malio !

Gyda dyfodiad y gwanwyn a'r haf, mae anifeiliaid ac adar bach yn ymddangos ym mhobman. Bydd y creaduriaid ifainc hyn yn mentro i'r byd ar goesau neu adenydd bregus, a bydd pobl sy'n byw neu'n gweithio gerllaw yn dod ar eu traws o dro i dro. Bob blwyddyn mae pobl sydd am eu helpu yn tarfu ar nifer fawr o greaduriaid bach gwyllt. Mae'r bobl hyn yn cymryd y creaduriaid ifanc o'r gwyllt er mwyn eu hachub. Mewn gwirionedd, mae'r bobl hyn yn effeithio ar allu'r anifeiliaid ac adar bach o dyfu'n oedolion normal.

Os byddwch yn dod ar draws aderyn neu anifail ifanc, y peth gorau i'w wneud yw gadael llonydd iddo. Fel arfer bydd y fam gerllaw yn aros i chi adael, cyn iddi ddychwelyd at ei babi. Trwy geisio bod yn garedig, yn aml mae'r gwrthwyneb yn wir. Yn lle cael ei adael i ymdopi ar ei ben ei hunan, bydd yr anifail ifanc yn colli'r cyfle i ddysgu dros ei hunan. Yn aml, byddant yn dibynnu ar y sawl sy'n gofalu amdanynt, ac yn methu dychwelyd i fyw yn wyllt. Ar ben hyn, mae'r gyfraith yn gwarchod nifer fawr o adar ac anifeiliaid gwyllt, ac mae'n anghyfreithlon i'w cymryd o'r gwyllt neu i'w cadw. Yr unig reswm i weithredu yw os byddwch yn dod ar draws rhywbeth ag anafiadau, neu os bydd y fam wedi marw. Os felly, dylid mynd â nhw'n syth at y milfeddyg lleol, lle byddant yn derbyn y gofal priodol.

Erthygl dio-gelwch



Sgamiau Ffôn

Mae galwadau ffug sydd â'r nod o'ch darbwyllo i roi manylion eich cerdyn credyd neu fanc yn broblem fawr. Byddwch yn ofalus.

Os bydd rhywun yn cysylltu â chi dros y ffôn, ac yn dweud wrthych eich bod wedi ennill gwobr—meddyliwch am eiliad: ydych chi wedi cystadlu mewn unrhyw gystadlaethau?

Mae'n bur debyg eich bod chi heb.

Y rhan fwyaf o'r amser, sgamiau yw'r galwadau hyn, sy'n cychwyn dramor, ac sydd â'r nod o'ch perswadio i roi manylion personol, megis rhif eich cyfrif banc neu wybodaeth am eich cerdyn credyd.

Os bydd hyn yn digwydd i chi, rhowch y ffôn i lawr. Os byddwch yn ennill rhywbeth, ni fydd gofyn i chi roi unrhyw fanylion personol, a ni fyddai'n rhaid i chi dalu unrhyw beth er mwyn casglu eich enillion fodd bynnag - mae hynny'n arwydd sicr fod rhywbeth o'i le.

Mae nifer fawr o bobl wedi cael eu twyllo trwy'r sgamiau hyn, ac mae rhai wedi colli eu holl gynilion.

Peidiwch ag ymuno â hwy.

- Peidiwch byth â rhoi manylion personol dros y ffôn
- Gofynnwch am fwy o wybodaeth bob tro
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pwy sy'n siarad â chi
- Cadwch fanylion eich cyfrif banc yn ddiogel

Pa bethau cyffrous sydd ar y gweill yma yn Oldford. Gyda thyweirch newydd yn mynd ar y man chwarae, dyfodiad y cae chwarae Scansis cyn bo hir, a lansio Oldford Arlein, mae cymaint i chi fod yn rhan ohono.

Wyt ti rhwng 13 -18 oed?
Wyt ti'n mwynhau antur?
Buaset ti'n hoffi teithio?

Os mai "IE" yw'r ateb i'r cwestiynau hyn, pam na ddoi di draw i gyflwyniad anffurfiol ynghylch cymryd rhan mewn taith gyfnewid i bobl ifanc nos Fercher 18fed Ebrill, am 6.45yh yn y Ganolfan Ieuenctid. Bydd **lluniaeth am ddim** ar gael!!

Hefyd gwyliwch allan am fanylion boreau coffi a nosweithiau agored fydd yn cael eu trefnu ar y cyd gydag Oldford Arlein. Dyma gyfle gwych i ddysgu mwy am brosiect Oldford Arlein ac i weld sut gallwch fod yn rhan o'r prosiect a gwaith rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

Mae'r nifer o fenywod yng Nghymru sy'n mynd am brofion ceg y groth (sgrinio serfigol) yn lleihau.
Mae Sgrinio Serfigol Cymru wedi sefydlu prosiect gyda'r nod o feithrin dealltwriaeth drwyadl

- o'r lleihad mewn niferoedd
- i adnabod unrhyw anghysondebau neu ddiffygion
- i argymell rhaglen addas o weithgareddau hyrwyddo i bobl o fewn yr oedran sgrinio.

Rydym am recriwtio 10 – 12 o fenywod rhwng 20 – 30 oed ar gyfer y grwpiau ffocws, ac rydym yn targedu'r oedran yma ar hyn o bryd, gan mai dyma'r oedran lle mae'r lleihad mwyaf. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y grŵp, ffoniwch Hayley Sillett ar 01492 863540.

Parhad o Dudalen 1...

Sut gallaf fod yn rhan o'r prosiect?
Bydd angen i bawb fyddai'n hoffi defnyddio'r cyfrifiaduron fod yn aelod o Oldford Arlein.
Pobl dros 18: gallwch wneud hyn mewn unrhyw un o'r sesiynau Mynediad Agored, neu mewn bore coffi neu noson agored:

Boreau Coffi
Dydd Gwener 20fed Ebrill, 10.00yb – 12.00yp, Tŷ Emerald, Ysgol Babanod Oldford
Dydd Mercher 25ain Ebrill, 10.00yb – 12.00yp, Ystafell Gymunedol Clwyd Alyn
Dydd Gwener 4ydd Mai, 10.00yb – 12.00yp, Tŷ Emerald, Ysgol Babanod Oldford
Noson Agored
Nos Fercher 2ail Mai, 6.00yh – 8.00yh, Tŷ Emerald, Ysgol Babanod Oldford

Pobl ifanc dan 18: byddwn yn rhedeg gweithdai gwybodaeth arbennig ar eich cyfer chi a bydd angen i chi ddod i'r rhain cyn ymaelodi. Bydd y gweithdy cyntaf hefyd yn rhoi cyfle i chi ddweud ar gyfer pa fath o bethau rydych chi am ddefnyddio'r cyfrifiaduron, felly gofalwch eich bod yn dod i'r sesiwn yma os am leisio eich barn! Bydd manylion y gweithdy hwn yn cael eu hysbysebu yn y dyfodol agos.

Dewch i'r lansiad swyddogol!
Bydd Lembit Opik yn lansio Oldford Arlein yn swyddogol ar ddydd Gwener 11eg Mai am 9.30yb. Cynhelir y lansiad yn Nhŷ Emerald yn Ysgol Babanod Oldford. Bydd yn gyfle gwych i weld y dechnoleg sydd ar gael, i ymaelodi, ac i ddysgu mwy am y cyfle cyffrous hwn. Bydd lluniaeth ar gael hefyd, felly beth am alw heibio am baned ac ymaelodi ag Oldford Arlein!

I ddysgu mwy am Oldford Arlein, neu am y gweithgareddau sy'n digwydd, cysylltwch â Mandy Roberts ar 01938 556648, neu ffoniwch swyddfa Cymunedau'n Gyntaf.

Oldford Arlein amdani!

Llongyfarchiadau Latham!!!

Mae Latham wedi bod yn mynd i'r Kidz Klub yn yr Amwythig ar fore Sadwrn, ac wedi derbyn seren aur am ei ymddygiad da. Mae angen gwirfoddolwr i yrru bws mini i fynd â mwy o blant i'r Clwb gwych yma. Os gallwch helpu, ffoniwch Hazel ar 556648.

Presgripsiynau am ddim

Hyfforddiant

Rhifau defnyddiol

Mae Fforymau Cymunedol Lleol Llanfyllin a'r Trallwng o Bartneriaeth Strategaeth Gymunedol Powys yn chwilio am fudiad i ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddol ar gyfer 2007-2008.

Ydych chi'n grŵp cymunedol sydd â'r gallu i ddarparu'r canlynol:

- Cymorth gweinyddol
- Cynnal a diweddaru basau data
- Man cyswllt cyhoeddus ar gyfer sylwadau'r cyhoedd
- Casglu, coladu ac adrodd ar sylwadau'r cyhoedd mewn digwyddiadau lleol
- Paratoi ceisiadau am Gytundeb Lefel Gwasanaeth a chynlluniau ariannu eraill
- Marchnata a chyhoeddusrwydd
- Gwerth y contract blynyddol hwn yw £1,000

Os oes gennych ddiddordeb mewn darparu gwasanaeth Ysgrifenyddol ar gyfer un o'r ddau fforwm, cysylltwch â:

Vanessa Garwood, Prif Swyddog Adfywio Cymunedol, Cyngor Sir Powys, Gwynfa, Heol Beaufort, Llandrindod, Powys, LD1 5LA

Dylid anfon ceisiadau i'r cyfeiriad uchod; y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 27ain Ebrill 2007.